

GREEN GEN TYWI TEIFI

Cwestiynau cyffredin


Mae Green Gen Cymru yn cynnig llinell uwchben drwy Ddyffryn Teifi i gysylltu ynni glân, gwyrdd â'r rhwydwaith trydan presennol ger Caerfyrddin.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, mae angen seilwaith grid newydd arnom, sy'n gallu cysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy i gartrefi a busnesau ledled Cymru a Lloegr. Mae angen hyn ar frys i leihau'r defnydd o danwydd ffosil.

Rydym wedi ymrwymo i leihau unrhyw effeithiau posib, ar y gymuned leol a'r ardal gyfagos. Isod, gallwch ddod o hyd i gwestiynau a ofynnir yn aml am y prosiect, gyda atebion, er mwyn eich darparu gyda rhagor o wybodaeth am ein cynigion.

C Pa mor hir fydd y llinell uwchben a faint o beilonau fyddwch chi'n eu defnyddio?

A Rydym yn disgwyl y bydd cyfanswm hyd y llinell uwchben oddeutu 52 cilometr, sef tua 31 milltir. Rydym yn rhagweld y bydd angen i ni ddefnyddio tua phedwar peilon y cilometr. Rydym ar gam cynnar yn y broses o ddatblygu'r prosiect ac mae ein cynigion yn dal yn agored i gael eu newid yn dilyn adborth yn yr ymgynghoriad, canllawiau i randdeiliaid a'n hasesiadau pellach ein hunain. Rydym yn disgwyl cael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion lle byddai peilonau'n cael eu lleoli, yn ein hail ymgynghoriad yn 2025.



C Pam ydych chi'n dewis defnyddio peilonau a llinell uwchben ac nid ceblau o dan y ddaear?

A Mae peilonau'n ymddangos mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru lle mae tirwedd, amaethyddiaeth a thwristiaeth yn rhannau ffyniannus o'r economi leol – mae seilwaith trydanol a'r gweithgareddau hyn yn cydfodoli mewn sawl lle. Mae ceblau o dan y ddaear fel arfer rhwng 6 a 10 gwaith yn ddrutach na llinellau uwchben. Mae angen mwy o dir ar gyfer ceblau dan ddaear hefyd ac maent yn achosi mwy o aflonyddu ar y tir yn ystod y cam adeiladu, a allai greu effeithiau ecolegol ac archeolegol mwy sylweddol. Gellir datblygu llinellau uwchben yn gyflymach hefyd – ac mae darparu'r cysylltiad newydd yn gyflym yn allweddol os ydym am ddod ag ynni carbon isel i gartrefi a busnesau cyn gynted â phosibl. Rydym yn gwybod bod gan bobl safbwyntiau gwahanol ar seilwaith newydd, ac rydym yn cydnabod bod gan bobl bryderon am beilonau yn y dirwedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynigion yn ofalus er mwyn cadw unrhyw effeithiau gweledol mor isel ag y gallwn.

C Allech chi ddefnyddio polion pren ar gyfer y cysylltiad yn lle hynny?

A Er mwyn darparu digon o gapasiti ar gyfer yr holl ynni carbon isel a gynigir, mae angen dau gylched 132 kV arnom. Dim ond un cylched y gall polion pren ei chario, felly byddai defnyddio polion pren yn gofyn am nifer o gysylltiadau i gysylltu'r un faint o drydan. Gallai hyn greu effeithiau gweledol dros ardal fwy o faint.

C Ydych chi'n ystyried llwybrau eraill?

A Credwn mai'r llwybr a ffeirir gennym yw'r opsiwn gorau ar sail y wybodaeth sydd gennym. Roeddem wedi edrych ar wahanol opsiynau llwybr yn seiliedig ar leoliad y parc ynni newydd arfaethedig a lle mae angen i ni gysylltu â'r rhwydwaith trydan presennol. Buom yn asesu'r holl opsiynau a'u cymharu â'i gilydd i weld pa opsiwn ar y cyfan sy'n cael yr effaith leiaf yn gyffredinol. Byddwn yn parhau i asesu'r effeithiau'n ofalus wrth i ni ddatblygu dyluniad cysylltiad, gan gynnwys lle gallai peilonau ac offer arall eistedd yn y dirwedd leol. Bydd hyn yn cynnwys arolygon ac ymgynghori â thirfeddianwyr, cymunedau a chyrff arbenigol. Gallwch chi ddarllen mwy am yr opsiynau a ystyriwyd gennym a sut y gwnaethom eu hasesu yn ein hadroddiad Llwybro ac Ymgynghori ar ein gwefan.

C Pa mor llydan yw'r llwybr sy'n cael ei ffafrio

A Mae'r llwybr a ffeirir oddeutu 200 metr o led. Mae lled peilonau yn llawer llai na hyn – tua saith metr – felly mae llawer o hyblygrwydd o ran lle rydym yn gosod y peilonau wrth geisio cadw'r effeithiau mor isel ag y gallwn.

C Sut bydd y prosiect yn cael budd ac yn effeithio ar yr economi leol?

A Mae Bute Energy wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y cymunedau sydd agosaf at eu prosiectau a bydd yn ymestyn y gronfa i'r rheini sy'n byw'n agos at y cysylltiadau grid ar gyfer eu parciau ynni, gan gynnwys Tywi Teifi. Rydym yn dal ar gam cynnar yn natblygiad y prosiect, ond byddwn yn darparu cyfleoedd i gadwyni cyflenwi Cymreig lle bynnag y bo modd. Fel rhan o'n cais cynllunio, byddwn hefyd yn asesu effaith y prosiect ar fusnes a chyflogaeth. Bydd hyn yn cynnwys adroddiad economaidd-gymdeithasol a chymunedol, a fydd yn ystyried sut gallai'r prosiect effeithio ar yr ardaloedd hyn ac a oes angen unrhyw fesurau lliniaru a sut bydd y rhain yn cael eu cyflawni.

C Sut bydd y prosiect yn cael ei ariannu?

A Bydd cysylltiad Tywi Teifi yn cael ei ariannu 100% gan Grŵp Ynni Bute. Ni fydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio.

C Pwy fydd yn elwa o'r ynni a ddarperir?

A Bydd cysylltiad Tywi Teifi yn mynd â phŵer o'r man lle caiff ei gynhyrchu, i'r rhwydwaith trosglwyddo yng Nghaerfyrddin lle gellir ei ddosbarthu wedyn drwy'r grid cenedlaethol, yn lleol ac yn genedlaethol.

C Sut bydd y prosiect yn effeithio ar yr amgylchedd a bioamrywiaeth?

A Mae newid yn yr hinsawdd yn cael effaith ddramatig ar blanhigion ac anifeiliaid – diogelu bioamrywiaeth yw un o'r prif ffactorau sy'n sbarduno symud draw oddi wrth danwydd ffosil. Mae diwallu anghenion byd natur gyda'r seilwaith sydd ei angen arnom i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn gofyn am gydbwysedd gofalus. Bydd datblygu seilwaith mawr bob amser yn effeithio ar yr amgylchedd, ond gall hefyd fod yn gyfle i fuddsoddi mewn bioamrywiaeth a'i wella. Byddwn yn ceisio cadw unrhyw effeithiau ar fioamrywiaeth mor isel ag y gallwn yn y penderfyniadau a wnawn. Byddwn yn cydymffurfio â chanllawiau cyfredol yng Nghymru ar sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn yr ardal. Drwy weithio'n agos gyda'r rhanddeiliaid perthnasol, byddwn yn gweithio i sicrhau budd amgylcheddol sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion hyn – rydym wedi ymrwymo i sicrhau o leiaf 10% o enillion net mewn bioamrywiaeth o'i gymharu â heddiw.

C Sut byddwch chi'n rheoli effaith amgylcheddol y prosiect?

A Rydym wedi ymrwymo i gadw effaith amgylcheddol ein cynigion mor isel ag y gallwn. Bydd effaith amgylcheddol y prosiect yn cael ei hasesu fel rhan o Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar ein dyluniad terfynol ar gyfer y llinell uwchben a'r is-orsaf. Bydd hyn yn ymchwilio i effeithiau amgylcheddol posibl ein cynigion, ynghyd â sut rydym yn bwriadu lleihau neu gyfyngu ar yr effeithiau hyn. Bydd hyn yn cael ei adrodd yn y Datganiad Amgylcheddol sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o'n cais am ganiatâd cynllunio. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda chyrff arbenigol, grwpiau amgylchedd lleol, tirfeddianwyr a chymunedau lleol i drafod ein canfyddiadau ac i ymgynghori ar ein hargymhellion ynglŷn â'r ffordd orau o reoli unrhyw effeithiau posibl.

C Sut ydych chi'n bwriadu rheoli traffig adeiladu ar ffyrdd lleol, a pha lwybrau trafndiaeth ydych chi'n bwriadu eu defnyddio?

A Rydym wedi ymrwymo i achosi'r aflonyddwch lleiaf posibl i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd y mae ein cynigion yn effeithio arnynt. Byddwn yn cael cyngor gan randdeiliaid technegol ac yn ystyried effaith y prosiect ar ffyrdd lleol fel rhan o asesiad traffig a thrafnidiaeth, sy'n un o ofynion y broses y byddwn yn ei dilyn i gyflwyno cais cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys sut rydym yn bwriadu rheoli traffig adeiladu, gan gynnwys unrhyw effeithiau posibl. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal cysylltedd rhwng trefi a phentrefi cyfagos a byddwn yn sicrhau nad yw ein gwaith yn ei gwneud yn anodd i'r rheini sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

C A fydd y llinell uwchben yn gwneud sŵn?

A Gall llinellau pŵer uwchben foltedd uchel wneud sŵn weithiau, o dan rai amodau. Sŵn cracio neu hymian yw hyn yn aml, ac mae'n digwydd yn bennaf yn ystod tywydd gwlyb. Gall sŵn ddigwydd hefyd o ganlyniad i'r gwynt yn chwythu heibio'r llinell neu'r peilonau. Bydd unrhyw effeithiau sŵn posibl yn cael eu hasesu fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA). Byddwn bob amser yn sicrhau bod dyluniad y llinell uwchben a'r is-orsaf yn ystyried unrhyw effeithiau ar y gymuned leol yn ofalus.

C Beth yw meysydd trydanol a magnetig (EMFs) ac a ydyn nhw'n ddiogel?

A Mae Meysydd Trydanol a Magnetig (EMF) yn cael eu cynhyrchu pan fydd trydan yn cael ei ddefnyddio neu ei drosglwyddo. Mae gwifrau, offer a chyflenwad trydan cartrefi i gyd yn ffynonellau. Felly, maen nhw o'n cwmpas drwy'r amser yn y byd modern. Mae llinellau uwchben yn ffynhonnell, ond dim ond un o blith llawer. Y cysylltiad mwyaf posibl o dan y llinell

uwchben yw 38.9 microtesla, sy'n debyg i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl wrth ddefnyddio sychwr gwallt neu gerdded yn agos at ficrodon pan fydd yn coginio. Mae terfynau ar waith i'n diogelu ni i gyd rhag dod i gysylltiad ag EMF. Mae'r terfynau hyn wedi'u seilio ar adolygiadau gofalus o'r wyddoniaeth gan arbenigwyr annibynnol, sy'n argymhell lefelau diogel o gysylltiad i'r cyhoedd. Terfyn y cysylltiad ar gyfer aelodau'r cyhoedd yw 360 microtesla, felly hyd yn oed os ydych chi'n sefyll yn uniongyrchol o dan y llinell uwchben, dim ond ffracsiwn bach o'r terfyn yw'r lefelau. Ar ôl degawdau lawer o ymchwil, a gwario cannoedd o filiynau o bunnoedd yn ymchwilio i'r mater, nid oes unrhyw effeithiau iechyd wedi'u sefydlu o dan y terfynau cysylltiad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.emfs.info

C Sut byddwch chi'n cefnogi'r rheini y mae'r prosiect yn debygol o effeithio arnynt yn uniongyrchol?

A Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn croesi drwy ardaloedd o dir amaethyddol, ac mae eiddo unigol gerllaw. Rydym yn deall y gallai'r rheini y mae ein cynigion presennol yn effeithio arnynt, gan gynnwys perchnogion tai a thirfeddianwyr, fod â phryderon. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod unrhyw effeithiau'n cael eu lliniaru cymaint â phosibl, ac rydym yn awyddus i'r rheini sy'n cael eu heffeithio fwyaf roi eu hadborth i ni. Mae ein tîm tiroedd ar gael i gwrrd â pherchnogion cartrefi a thirfeddianwyr. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn tir y mae ein cynigion yn effeithio arno ac nad yw ein tîm tir wedi cysylltu â chi eto, cysylltwch â ni.



digon i bweru
cyfateb i

174-250
mil
o gartrefi y flwyddyn

C Sut byddwch chi'n digolledu tîrfeddianwyr sydd ag offer ar eu tir?

A Rydym yng nghampau cynnar datblygiad y prosiect hwn ac nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi'u gwneud ynglŷn â ble fydd y cyswllt na'r peilonau'n mynd. Dyma ein rownd gyntaf o ymgynghori, ac rydym yn gofyn am adborth ar y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yma a sut y dylem ddatblygu ein cynigion ymhellach. Mae'n bwysig bod pobl yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac yn dweud wrthym am eu pryderon er mwyn i ni allu gweithio i leihau'r effeithiau ar gymunedau ac ar eiddo unigol. Ar ôl i ni fireinio ein cynigion, byddwn yn gweithio gyda'r tîrfeddianwyr yr effeithir arnynt i drafod sut y gallwn eu cefnogi. Byddwn yn gweithio'n galed i leihau'r effeithiau ar eiddo unigol, ond os bydd y dyluniad terfynol yn effeithio ar eich eiddo chi, byddwn yn trafod pa iawndal sydd ar gael i chi yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol.

C Sut bydd y prosiect yn cael ei ariannu?

A Rydym ar gam cynnar iawn yn y prosiect, ond os rhoddir caniatâd cynllunio i ni, rydym yn rhagweld y bydd y llinell yn weithredol erbyn 2028.

C Beth yw cynllun Green Gen Cymru yn is-orsaf y Grid Cenedlaethol?

A Mae Green Gen Cymru yn cynnig is-orsaf casglu 132kV newydd yn lleoliad Llandyfaelog ger Caerfyrddin, a fydd yn cysylltu ag is-orsaf newydd 400kV y Grid Cenedlaethol. Nid yw union lleoliad is-orsaf Green Gen Cymru wedi'i benderfynu eto. Bydd y cynlluniau ar gyfer yr is-orsaf hon yn cael eu cynnwys yn y cais DNS, ar gyfer prosiect cysylltiad grid, Towy Usk. Gobeithiwn rannu mwy o fanylion, gan gynnwys y lleoliad yn ail rownd yr ymgynghoriad.

Uchder safonol
o beilonau:

27_m



Lled y llwybr a ffefrir:

200_m

digon i bweru

hyd
at 264 MW
o drydan



Hyd y cyfnod adeiladu –
Tua

2 flynedd



www.greengen.towyteifi.com



info@greengen.towyteifi.com



0800 915
2496



FREEPOST
Green GEN
Cymru TT